

Yr amserlen ar gyfer trafodion Cyfnod 2 y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru)

Ar 2 Rhagfyr 2008, cafodd Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) ei osod gerbron y Cynulliad.

Ar 9 Rhagfyr 2008, penderfynodd y Cynulliad sefydlu, yn unol â Rheol Sefydlog 21.1, bwyllgor y cyfeirir ato fel Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2, i ystyried cynigion deddfwriaethol a gaiff eu cyfeirio ato gan y Pwyllgor Busnes.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.31(ii), mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar gyfer trafodion Cyfnod 2.

Yn unol â Rheol Sefydlog 23.19, mae'r Pwyllgor Busnes wedi pennu amserlen ar gyfer ystyriaeth fanwl y Pwyllgor ac wedi cytuno y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 30 Ionawr 2009.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes Rhagfyr 2008